Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl

### Cyfrog 4 – Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

# Rhan 7

Canllawiau ar Ddiogelu.

*Cyhoeddwyd o dan adrannau 131 a 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.*

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Adran 1: Yr agweddau sylfaenol** | **2** |
| Beth yw'r Gorchmynion, pwy gaiff wneud cais amdanynt a beth ellir eu defnyddio ar ei gyfer? | 2 |
| Swyddogaeth y swyddog awdurdodedig | 3 |
| Sgiliau swyddog awdurdodedig | 3 |
| Diffiniad o 'fyw' a 'mangre' a 'phreifat' | 4 |
| Gwneud penderfyniadau o wirfodd | 5 |
| Pryd y gallai Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion fod yn briodol | 5 |
| Pryd efallai na fydd Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn briodol | 5 |
| Hyd Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion | 6 |
| **Adran 2: Gwneud cais am orchymyn** | **7** |
| Cael gafael ar dystiolaeth i gefnogi cais | 7 |
| Ceisiadau i'r llys ynadon (yn gweithredu yn ei swyddogaeth sifil) | 7 |


Digital ISBN 978-1-4734-7023-1 © Crown copyright 2016 WG29241

# Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn cynnig un pwynt cyfeirio ar Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'n cynnig gwybodaeth gynhwysfawr am geisio, gweithredu a gorfodi Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn. Fe'i cyhoeddir o dan adran 131 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O gofio'r buddiant a rennir, bydd y canllaw hwn hefyd o ddiddordeb i'r heddlu a staff llysoedd.

Cynghorir y rhai sy'n defnyddio'r canllaw hwn i wirio'r mesurau perthnasol eu hunain a chael gafael ar eu cyngor cyfreithiol eu hunain fel y bo'n ofynnol, wrth gyfeirio at ddarpariaethau perthnasol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dylid defnyddio Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i alluogi swyddog awdurdodedig, ac unrhyw berson arall a nodir yn y gorchymyn, i siarad ag oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn breifat, i ddarganfod pa un a all yr oedolyn wneud penderfyniadau yn rhydd, i asesu pa un a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i ganfod a ddylid cymryd unrhyw gamau.

Yn bwysig, nid yw Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn rhoi pŵer i symud person. Yr egwyddor yw y dylai dymuniadau oedolyn sy'n wynebu risg allu cael eu mynegi'n rhydd ac y dylid eu parchu.

# Adran 1: Yr agweddau sylfaenol

**Beth yw'r Gorchmynion, pwy gaiff wneud cais amdanynt a beth ellir eu defnyddio ar ei gyfer?**

1.1 Dibenion Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn yw:

- galluogi swyddog awdurdodedig, ac unrhyw berson arall sydd gyda'r swyddog, i siarad yn breifat â pherson yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg;
- galluogi'r swyddog awdurdodedig i ganfod a yw'r person hwnnw'n gwneud penderfyniadau yn rhydd; a
- galluogi'r swyddog awdurdodedig i asesu'n briodol pa un a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad fel sy'n ofynnol o dan adran 126(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar ba gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.

1.2 Gorchmynion sifil y gall swyddog awdurdodedig eu ceisio yw Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Mae'n rhaid i swyddog awdurdodedig fod yn berson sydd wedi'i awdurdodi gan awdurdod lleol i'r diben.

1.3 Pan fo Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ar waith, caiff swyddog awdurdodedig, cwnstabl ac unigolion eraill a nodir yn y gorchymyn fynd i mewn i fangre lle mae oedolyn sy'n wynebu risg yn byw i'r dibenion a nodir uchod.

1.4 Gall Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion gael eu cyflwyno gan ynad heddwch os yw'n fodlon:

- bod gan y swyddog awdurdodedig achos rhesymol i amau bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg;
- ei bod yn angenrheidiol i'r swyddog awdurdodedig gael mynediad at y person er mwyn asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad am ba gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd;
- ei bod yn angenrheidiol cyflwyno gorchymyn er mwyn bodloni'r dibenion a nodir yn adran 127(2); ac
- na fydd arfer y pŵer mynediad a gyflwynir gan y gorchymyn yn arwain at i'r person fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

1.5 Mae Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 yn gosod cyfyngiadau ar bwy gaiff weithredu fel swyddog awdurdodedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu i swyddog o'r awdurdod lleol lle mae'r oedolyn sy'n wynebu risg yn preswylio weithredu fel swyddog awdurdodedig. Pan nad yw hyn yn ymarferol, dylai'r swyddog awdurdodedig fod yn swyddog o awdurdod lleol yn ardal y Bwrdd Diogelu ac os nad yw hyn yn ymarferol, dylai swyddog awdurdodedig fod yn swyddog o awdurdod lleol yng Nghymru.

1.6 Bydd angen i awdurdodau lleol fod yn eglur ynghylch pwy sydd â chyfrifoldeb i weithredu ar ran yr awdurdod a gallu darparu tystiolaeth o awdurdodiad.

## Swyddogaeth y swyddog awdurdodedig

1.7 Swyddog awdurdodedig yw'r person a gaiff wneud cais i ynad heddwch am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Dylai'r swyddog awdurdodedig baratoi'r ffurflen gais (gweler Atodiad B) gan gynnwys y sail ar gyfer y cais a'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys yn y gorchymyn fel y nodir yn adran 127(5) a (6) y Ddeddf. Mae'r swyddogaeth yn cynnwys trafod â gwasanaeth cyfreithiol yr awdurdod lleol i wneud y cais i'r llys a phresenoldeb posibl i roi tystiolaeth am yr angen mewn achosion penodol.

## Sgiliau swyddog awdurdodedig

1.8 Mae angen set gymhleth o sgiliau ar swyddog awdurdodedig. Bydd swyddog awdurdodedig yn cyflawni rhaglen hyfforddi arbenigol a bydd yn ofynnol iddo gadw ei sgiliau'n gyfredol. Mae'n hanfodol bod gan y swyddog awdurdodedig rywfaint o annibyniaeth ar ei gyflogwr ac yn gallu cyflawni'r swyddogaethau yn annibynnol ar reolaeth yr achos penodol o ddydd i ddydd.

1.9 Dylai swyddog awdurdodedig feddu ar y sgiliau a'r priodweddau canlynol:

- y gallu i baratoi a chyflwyno, gyda chymorth cyfreithiol, cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn eglur ac yn hyderus i ynad heddwch;
- dealltwriaeth o'r fframwaith cyfreithiol y mae Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn gweithredu oddi mewn iddo gan gynnwys goblygiadau Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r angen i barchu amrywiaeth;
- y gallu i asesu unrhyw berygl i'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg cyn gwneud y cais ac, os caiff Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ei gyflwyno, ar ôl iddo gael ei roi ar waith;
- lefel uchel o ddealltwriaeth o gyd-destun camdriniaeth, sefyllfaoedd gamdriniol ac esgeulustod;
- y gallu i nodi rheolaeth gymhellol a'i heffeithiau ar oedolion sy'n wynebu risg;
- dealltwriaeth eglur o ddarpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 o ran asesiadau o alluedd, asesiad budd pennaf a swyddogaeth yr Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol;
- sgiliau cyfathrebu effeithiol a'r gallu i nodi unrhyw anghenion cyfathrebu arbennig y gallai fod gan y person yr amheuir ei fod yn wynebu risg a sut y gellid gwella ei allu i gyfathrebu ei anghenion;
- y gallu i fod yn bendant ac arfer rheolaeth mewn sefyllfaoedd anodd a heriol;
- y gallu a pharodrwydd i herio ei asiantaeth ei hunan pan fo angen; ac
- ymwybyddiaeth o bryd y mae angen eiriolwr a sut i gynorthwyo'r oedolyn i gael gafael ar eiriolwr.

1.10 Y rhestr uchod o sgiliau a phriodweddau fydd y sail ar gyfer hyfforddi ac asesu swyddogion awdurdodedig.

1.11 Os caiff Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ei gyflwyno, mae'n rhaid i'r llys:

- nodi'r fangre y mae'n berthnasol iddo;
- darparu i gwnstabl fynd gyda'r swyddog awdurdodedig; a
- nodi'r cyfnod y bydd y gorchymyn mewn grym.

1.12 Gall y llys hefyd atodi amodau a allai, er enghraifft:

- nodi cyfyngiadau ar yr amser y gellir arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn;
- darparu i berson penodedig arall fynd gyda'r swyddog awdurdodedig; ac
- ei gwneud yn ofynnol i rybudd am y gorchymyn gael ei roi i feddiannydd y fangre ac i'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg.

**Diffiniad o 'fyw' a 'mangre' a 'phreifat' at ddibenion adran 127(1)**

1.13 Mae person yn 'byw' mewn mangre os yw ef neu hi yn preswylio yno am gyfnod o amser, naill ai'n barhaol neu dros dro heb ystyried pa un a oes ganddo ef neu hi fuddiant cyfreithiol neu fuddiant arall yn y fangre.

1.14 At ddibenion adran 127(1), mae 'mangre' yn cynnwys:

a. mangre ddomestig;

b. cartref gofal preswyl;

c. cartref nyrsio;

ch. ysbyty; ac

d. unrhyw adeilad, adeiledd, cartref symudol neu garafán arall y mae'r person yn byw ynddo.

1.15 Mae'n bwysig nodi na ellir defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn un o fangreoedd yr ystâd ddiogeled, mewn carchardai na llety cadw ieuenctid (gweler adran 185(6) y Ddeddf).

1.16 Mae'r diffiniad o 'breifat' o dan adran 127(2)(a) yn gymhleth. Wynebir llai o broblemau pan fo'r fangre yn ddigon mawr i'r person gael ei gyfweld heb ofni cael ei glywed gan rywun arall. Fodd bynnag, mewn fflat neu dŷ bychan, efallai y bydd yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn ofni siarad yn onest. Efallai, er enghraifft, y bydd angen ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd adael y fangre yn ystod cyfnod y cyfweliad.

1.17 Mae pwerau cwnstabl sy'n mynd gyda'r swyddog awdurdodedig yn ymestyn y tu hwnt i sicrhau mynediad i'r fangre. Mae adran 127(7) yn nodi y caiff y swyddog ddefnyddio grym rhesymol 'os yw'n angenrheidiol er mwyn cyflawni dibenion gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn'. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau ei bod yn bosibl i'r swyddog awdurdodedig gael sgwrs breifat gyda'r person a bod yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn gwneud ei benderfyniadau o'i wirfodd.

## Gwneud penderfyniadau o wirfodd

1.18 Mae adran 127(2)(b) yn nodi mai un o ddibenion y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yw sicrhau bod yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn ‘gwneud penderfyniadau o’i wirfodd’. Mae’n dilyn y dylai’r rhai sy’n ymgymryd â chyflwyno’r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion sicrhau nad ydynt yn arfer dylanwad gormodol. Mae’n rhaid iddynt fod yn ymwybodol y gallai’r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg gael ei ddychryn gan y defnydd o bwerau statudol a phresenoldeb nifer o ddieithriaid yn ei gartref, gan gynnwys cwnstabl. Efallai y bydd angen eiriolwr i sicrhau y gall y person herio safbwyntiau’r ymarferwyr.

## Pryd y gallai Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion fod yn briodol

1.19 Rhagwelir mai anaml y bydd cais yn cael ei wneud am Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Bydd ceisiadau’n cael eu gwneud dim ond pan fydd opsiynau eraill llai ymwthiol wedi methu neu’n hynod debygol o fethu.

1.20 Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i swyddogion awdurdodedig brofi’r angen am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion y tu hwnt i bob amheuaeth resymol. Mae’r angen am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn rhannol oherwydd bod gwybodaeth annigonol am yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg.

1.21 Bydd angen i’r swyddog awdurdodedig allu dangos bod y sail o dan adran 127(4) yn cael ei chyflwyno, h.y.

- bod ganddo achos rhesymol i amau bod oedolyn yn oedolyn sy’n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- ei bod yn angenrheidiol i’r swyddog awdurdodedig gael mynediad at y person er mwyn asesu’n briodol pa un a yw’r person yn oedolyn sy’n wynebu risg ac i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd;
- bod gwneud gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni’r dibenion a nodir yn adran 127(2) (fel y disgrifir uchod); ac
- na fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri i’r oedolyn fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

## Pryd efallai na fydd Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn briodol

1.22 Mae Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion wedi eu cynllunio i alluogi oedolion agored i niwed fynegi eu safbwyntiau’n annibynnol i swyddog awdurdodedig pan geir rheswm i gredu eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Fodd bynnag, efallai na fydd Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn briodol os:

- gallai caniatáu Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion adael yr unigolyn mewn mwy o berygl;
- nad yw dulliau eraill llai ymwthiol wedi cael eu hystyried; ac
- y gallai defnyddio Gorchymyn Amddiffyn rhag Trais Domestig[1] lle gellir symud y troseddwr o’r fangre gynnig amddiffyniad gwell i’r dioddefwr.

1.23 Mae’n bwysig nodi na ellir defnyddio Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn un o fangreoedd yr ystâd ddiogeled, mewn carchardai na mewn llety cadw ieuenctid (gweler adran 185(6) y Ddeddf).

1 https://www.gov.uk/government/publications/domestic-violence-protection-orders

**Hyd Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion**

1.24 Nid yw Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn rhoi pŵer mynediad cyffredinol. Maent yn canolbwyntio ar y dibenion penodol a amlinellir yn adran 127(2) y Ddeddf. Ni ellir parhau'r pŵer yn afresymol fel rhyw fath o arf ataliol. Mae'r defnydd o Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn amodol ar yr egwyddor gyffredinol o gymesuredd. Mae hyn yn berthnasol i nifer yr ymweliadau a nifer y bobl sy'n dod gyda'r swyddog awdurdodedig.

1.25 Nid yw'r Ddeddf yn nodi sawl gwaith y ceir defnyddio'r pŵer o dan Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, er bod yn rhaid i'r Gorchymyn nodi'r cyfnod yn ystod pryd y bydd mewn grym. Mae'n annhebygol y bydd un ymweliad yn ddigonol. Gan ei bod yn bosibl mai prin fydd y wybodaeth am yr unigolyn y mae'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn berthnasol iddo, efallai y bydd yn anodd nodi pwy ddylai fynd gyda'r swyddog awdurdodedig a pha set sgiliau sy'n ofynnol. Byddai'n afresymol disgwyl i nifer fawr o ymarferwyr fynd gyda'r swyddog awdurdodedig rhag ofn y bydd angen eu sgiliau a'u harbenigedd.

1.26 Bydd ymweliad cyntaf yn galluogi'r swyddog awdurdodedig i nodi pwy ddylai ddod gydag ef neu hi ar unrhyw ymweliad dilynol. Mae adran 127(2) y Ddeddf yn caniatáu i'r swyddog awdurdodedig *ac unrhyw berson arall sydd gyda'r swyddog* gael sgwrs breifat gyda'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg. Dylid rhoi ystyriaeth gref cyn gwneud cais o ran pwy y gallai fod ei angen i fynd gyda'r swyddog awdurdodedig ar ymweliadau cyntaf neu ddilynol.

1.27 Yn absenoldeb unrhyw amodau penodol yn cyfyngu ar nifer yr ymweliadau, gallai gorchymyn awdurdodi unrhyw nifer o ymweliadau yn ystod y cyfnod y mae'r gorchymyn mewn grym. Fodd bynnag, os bydd yr ynad heddwch yn pryderu am awdurdodi ymweliadau lluosog, gall ef neu hi roi amodau ynghlwm i'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion a chyfyngu'r awdurdod i gael mynediad ar un achlysur yn unig neu i nodi uchafrif yr ymweliadau. Mae'n debygol, o ystyried natur Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, y bydd yr ynad heddwch yn ymwybodol o'r angen i gyfyngu hyd Gorchymyn a nifer yr ymweliadau a ganiateir er mwyn cyfyngu graddau'r ymwthiad.

1.28 Os bydd swyddog awdurdodedig yn credu y bydd angen ymweliadau hwy neu ymweliadau lluosog o dan un Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, yna mae'n rhaid cyflwyno'r dadleuon dros hyn yn y cais.

# Adran 2: Gwneud cais am orchymyn

**Cael gafael ar dystiolaeth i gefnogi cais**

2.1 Mae'n rhaid i swyddogion awdurdodedig sy'n gweithio ochr yn ochr â'r partneriaid perthnasol ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud ag unigolion a'u teuluoedd, gydweithredu a rhannu gwybodaeth i benderfynu ar yr angen am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ac i gefnogi'r cais am Orchymyn o'r fath.

**Ceisiadau i'r llys ynadon (yn gweithredu yn ei swyddogaeth sifil)**

2.2 Ceir gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (gweler adran 127 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) pan:

- fo gan swyddog awdurdodedig achos rhesymol i amau bod person yn oedolyn sy'n wynebu risg;
- fo'n angenrheidiol i'r swyddog awdurdodedig gael mynediad at y person er mwyn asesu'n briodol pa un a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd;
- fo'r gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r dibenion a nodir yn adran 127(2); a
- phan na fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri i'r oedolyn fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

2.3 Cyfrifoldeb y llys wedyn fydd penderfynu pa un a yw'n fodlon bod sail ar gyfer gwneud Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

2.4 Gall cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion gael ei wneud gan awdurdod perthnasol i'r llys ynadon yn yr ardal cyfiawnder lleol priodol, yn gweithredu yn ei swyddogaeth sifil. Dylai cais, pan fo gwneud hynny'n ymarferol, gael ei wneud i'r llys ynadon y mae ei ardal yn cynnwys yr awdurdod lleol neu'r ardal heddlu sy'n gyfrifol am y fangre y mae'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn berthnasol iddi.

2.5 Dylai'r swyddog awdurdod lleol arweiniol sy'n gyfrifol am yr achos sicrhau bod yr holl dystiolaeth a thystion ar gael yn y gwrandawiad, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r angen i'r llys wneud Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ar unwaith.

2.6 Mae darpariaethau amrywiol ar gyfer gohirio a diffyg presenoldeb yn y llys wedi eu cynnwys yn adrannau 54 i 57 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980.

2.7 Efallai y bydd pob awdurdod lleol yn dymuno pennu cyswllt enwebedig ar gyfer y gorchmynion hyn. Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn eglur ynghylch argaeledd a manylion cyswllt ar gyfer swyddogion awdurdodedig priodol a allai weithredu ar ran yr awdurdod perthnasol. Bydd hyn yn osgoi dryswch posibl wrth wneud ceisiadau am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Yn yr un modd, dylai fod gan awdurdodau lleol gysylltiadau uniongyrchol ag unedau cyfeirio'r heddlu perthnasol. Y rhain ddylai fod y prif bwynt cyswllt rhwng yr awdurdod lleol a'r heddlu.

**Paratoi'r cais**

2.8 Un anhawster penodol i swyddog awdurdodedig wrth ystyried gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yw y gallai'r wybodaeth am yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg fod yn brin iawn. Yn aml, y diffyg unrhyw wybodaeth ddibynadwy am y person, ynghyd â phryderon am ei ddiogelwch, fydd un o'r rhesymau pam mae cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn cael ei wneud. Dylai swyddog awdurdodedig ystyried y canlynol wrth baratoi cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion:

- pryd bynnag y bo'n bosibl, dylai'r cais gael ei drafod gan bartneriaid asiantaeth er mwyn sicrhau y bydd yn arwain at weithredu strwythuredig;
- bod y swyddog awdurdodedig yn meddu ar yr holl wybodaeth berthnasol;
- bod paratoad digonol ar gyfer unrhyw gyfranogiad ar ôl y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion;
- fodd bynnag, y swyddog awdurdodedig, gyda chymorth tîm cyfreithiol yr awdurdod lleol, sydd â'r unig gyfrifoldeb am ddefnydd a gweithrediad y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion;
- wrth wneud y cais i'r ynad heddwch, mae'n rhaid i'r swyddog awdurdodedig allu darparu tystiolaeth bod dulliau eraill a llai ymyraethol wedi eu hystyried, ond y penderfynwyd eu bod yn annigonol. O ystyried goblygiadau hawliau dynol Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, mae'n rhaid ei ystyried dim ond pan fo popeth arall wedi methu; ac
- mae'n rhaid dod i gytundeb gyda'r heddlu, neu unrhyw asiantaeth arall, ynghylch swyddogion cysylltiedig i'w nodi yn y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion.

2.09 Dylai'r swyddog awdurdodedig lunio 'mantolen' yn asesu peryglon a goblygiadau gwneud cais a pheidio â gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Byddai hyn yn cynorthwyo'r swyddog awdurdodedig wrth ystyried y cais, a byddai o gymorth i'r ynad heddwch pan gaiff y cais ei wneud.

**Casglu tystiolaeth**

2.10 Nid oes rhaid i swyddogion awdurdodedig brofi'r angen am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion y tu hwnt i bob amheuaeth resymol. Gallai'r angen am y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion fod yn rhannol oherwydd bod gwybodaeth annigonol am yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg. Mae angen i'r ynad heddwch gael ei 'fodloni' ynghylch y materion a amlinellir yn adran 127(4)(a)-(d) y Ddeddf. Dyma nhw:

- bod gan y swyddog awdurdodedig sail resymol dros amau bod y person yn oedolyn sy'n wynebu risg;
- ei bod yn angenrheidiol i'r swyddog awdurdodedig gael gweld y person er mwyn asesu'n briodol a yw'r person hwnnw'n oedolyn sy'n wynebu risg a gwneud penderfyniad fel sy'n ofynnol gan adran 126(2) ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd;
- bod gwneud gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r dibenion a nodir yn adran 127(2); ac
- na fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri i'r oedolyn fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

## Gwneud y cais

2.11 Rhagwelir mai anaml y bydd cais yn cael ei wneud am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Fel y nodwyd uchod, dylid gwneud ceisiadau dim ond pan fo popeth arall wedi methu, dylid eu hystyried dim ond pan fo dulliau eraill llai ymwthiol wedi methu neu'n hynod debygol o fethu. Dylid cofnodi methiant gwirioneddol neu debygol y dulliau eraill hyn.

## Hysbysiad o gais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

2.12 Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i feddiannydd y fangre a'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg y bydd cais yn cael ei wneud am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Dylid cadw cofnod o unrhyw hysbysiad ysgrifenedig neu lafar o'r fath a dylid cynnwys y wybodaeth yn y cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, gan ei bod yn agored i ynad heddwch atodi amod i'r gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad ysgrifenedig gael ei roi.

2.13 Os bydd y swyddog awdurdodedig yn pryderu y gallai rhoi rhybudd i'r meddiannydd neu'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg amlygu'r person i niwed posibl, mae'n rhaid cynnwys y wybodaeth hon, a'r rhesymeg sy'n sail i farn o'r fath, yn y cais.

2.14 Dylid rhoi ystyriaeth i'r angen i hysbysu unigolion eraill yr effeithir arnynt gan y gorchymyn, er enghraifft, pan geir trefniant rhannu llety mewn lleoliad domestig, fel llety â chymorth.

## Pwy ddylai fod gyda'r swyddog awdurdodedig?

2.15 Mae adran 127(6)(b) y Ddeddf yn nodi y gallai Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion gynnwys amod yn darparu i berson penodedig arall fod gyda'r swyddog awdurdodedig. Mae'r ffurflen gais yn Atodiad B yn cynnwys rhestr o bobl a gaiff fod gyda'r swyddog awdurdodedig. Nid yw'r rhestr hon yn drwyadl (mae adran 127(3) yn caniatáu i gwnstabl fod yn bresennol felly nid ydynt hwy yn cael eu rhestru isod fel person i fod gyda'r swyddog awdurdodedig). Nid yw eu cynnwys mewn trefn y cytunwyd arni o reidrwydd yn golygu bod yn rhaid iddynt fod gyda'r swyddog awdurdodedig yn ystod ymweliad.

### Enghreifftiau o berson o'r fath a allai gael ei gynnwys:

- y gweithiwr allweddol (gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal iechyd);
- gweithiwr gofal cartref;
- eiriolwr (statudol neu anstatudol);
- aelod o'r teulu neu ffrind agos;
- asesydd budd pennaf;
- ymarferydd cyffredinol; a
- gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

2.16 Mae'n debygol na fydd y swyddog awdurdodedig mewn sefyllfa i benderfynu pa wybodaeth neu arbenigedd sy'n ofynnol i gyflawni dibenion y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion tan yr ymweliad cyntaf, er enghraifft, pa un a oes angen cynnwys rhywun sy'n gallu asesu galluedd neu sydd â sgiliau cyfathrebu arbennig. Cyn belled ag y bo'n bosibl, dylid nodi person neu bersonau o'r fath yn rhan o'r paratoadau ar gyfer y cais.

2.17 Wrth geisio cynnwys amod ynghylch pwy ddylai fod gyda'r swyddog awdurdodedig, gan gynnwys swyddog yr heddlu, mae'n rhaid darparu'r rhesymeg dros ei gynnwys yn y cais, fel y gellir ei nodi yn y gorchymyn.

2.18 Bydd swyddogaethau rhagweledig y rhai sy'n mynd gyda'r swyddog awdurdodedig yn amrywio. Byddant yn cynnwys:

- sicrhau bod unrhyw gyfweliad gyda'r person yr amheuir ei fod yn wynebu risg yn cael ei gynnal yn deg;
- darparu gwybodaeth a phrofiad arbenigol ar faterion penodol (e.e. galluedd);
- eirioli ar ran y person;
- rannu'r wybodaeth sydd ganddynt eisoes am y person;
- datblygu perthynas gyda'r person;
- galluogi'r swyddog awdurdodedig i ymchwilio i bryderon ar y cyd, er enghraifft, â gweithiwr allweddol, swyddog yr heddlu, gweithiwr iechyd proffesiynol neu Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus; a
- chynorthwyo cyfathrebiad gyda'r oedolyn (neu unrhyw aelod arall o'r cartref), er enghraifft, cyfieithydd ar y pryd Iaith Arwyddion Prydain, darllenydd gwefusau, cyfathrebydd Makaton, cyfieithydd ar y pryd cyfathrebiadau byddar-ddall neu gyfieithydd iaith ar y pryd.

2.19 Dylai swyddogion awdurdodedig ystyried pa un a ddylai eiriolwr fod gyda nhw, ac, os byddant o'r farn na ddylid defnyddio eiriolwr, dylent gofnodi eu rhesymau am y penderfyniad hwnnw.

2.20 Os ystyrir bod angen eiriolwr, mae angen i swyddogion awdurdodedig fod yn eglur ynghylch pa fath o eiriolwr sydd ei angen, er enghraifft, Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol, Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol, neu eiriolwyr eraill yn ôl yr angen.

2.21 O dan amgylchiadau pan fo ymholiadau yn awgrymu y gallai'r swyddog sy'n cynnal yr ymweliad wynebu gwrthwynebiad gan y person y credir ei fod yn wynebu risg neu gan eraill yn y fangre, gan gynnwys y bygythiad o drais llafar neu gorfforol, dylid cymryd camau i sicrhau bod staff yn cael eu hamddiffyn a'u cynorthwyo i gynllunio a chyflawni'r ymweliad. Bydd angen cyfeirio at weithdrefnau trais tuag at staff neu weithio annibynnol yr awdurdodau er mwyn asesu unrhyw beryglon a mesurau posibl, fel staff yn ymweld mewn parau neu'n cadw mewn cysylltiad agos â'r heddlu, yn ôl yr angen.

2.22 Fodd bynnag, mae angen ystyried presenoldeb swyddog yr heddlu yn ofalus ar sail achosion unigol pan fo cydbwysedd gofalus i'w sicrhau rhwng y stigma a allai ddeillio o bresenoldeb swyddogion yr heddlu a'r angen rhagweledig i ddefnyddio pwerau'r heddlu sy'n ymestyn y tu hwnt i'r rhai a roddwyd i'r swyddog awdurdodedig o dan y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Bydd cytuno ymlaen llaw pryd y bydd ac na fydd angen yr heddlu yn lleihau'r tebygolrwydd o ofyn i swyddogion yr heddlu fod yn bresennol ar fyr-rybudd mewn sefyllfaoedd brys.

2.23 Oherwydd union natur Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, bydd angen cais am orchymyn brys o dan yr holl amgylchiadau ac eithrio'r rhai mwyaf eithafol. Fodd bynnag, bydd awdurdodau yn dymuno sicrhau bod trefniadau ar waith i'w galluogi i sicrhau mynediad at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi y tu allan i oriau.

# Adran 3: Gwybodaeth berthnasol arall

**Safon y prawf**

3.1 Gorchmynion sifil yw Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion, ond mater i'r llysoedd yn y pen draw yw safon y prawf a ddefnyddir i benderfynu a ddylid caniatáu gorchymyn o dan unrhyw amgylchiadau penodol. Dylid cadw mewn cof, fodd bynnag, bod yr angen am y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn rhannol oherwydd bod gwybodaeth annigonol am yr oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg.

**Datgeliad**

3.2 Cyn datgelu tystiolaeth, dylai'r swyddog awdurdodedig sy'n gwneud y cais am y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ymgynghori â'r awdurdod lleol neu'r heddlu neu asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod yr holl gamau rhesymol wedi I eu cymryd i gefnogi tystion a sicrhau bod cyn lleied o berygl â phosibl y bydd tystion yn cael eu dychryn.

3.3 Dylai'r swyddog awdurdodedig geisio cynnal anhysbysrwydd tystion a sicrhau nad yw'n nodi pwy ydynt yn ddiofyn (er enghraifft, trwy fanylion lleoliad, hil, priodweddau personol neu oedran).

**Cymorth i dystion**

3.4 Prif egwyddor y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yw amddiffyn pobl agored i niwed rhag y perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Dylai'r amddiffyniad a ddarperir geisio amddiffyn y rhai sy'n wynebu risg, tystion eraill sydd efallai wedi hysbysu am bryderon a'r gymuned leol ehangach.

3.5 Mae'n rhaid i ymgysylltu, datblygu a chynorthwyo'r unigolion hyn fod un un o brif ystyriaethau unrhyw awdurdod sy'n dymuno defnyddio Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion. Yn wir, dylai buddiannau'r tystion a'r gymuned fod yn ganolog i strategaethau lleol. Mae'n rhaid i les a diogelwch y rhai sy'n gwneud cwyn fod yn ystyriaeth bwysig.

**Datganoli**

3.6 Caiff swyddogion awdurdodedig wneud cais am Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yng Nghymru. Nid yw'r cynllun yn berthnasol i Loegr, yr Alban na Gogledd Iwerddon. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru, mewn cysylltiad agos â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.

**Ffioedd llys**

3.7 Bydd angen i awdurdodau perthnasol sy'n gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion dalu ffi ymgeisio i'r llys i dalu am gost y gwrandawiad llys. £75 yw'r swm sy'n daladwy am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ar adeg ysgrifennu hyn. Mae'r ffioedd hyn wedi eu nodi yng Ngorchymyn Ffioedd Llysoedd Ynadon (Diwygio) 2014, Rhif 875 sydd ar gael yn
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/875/pdfs/uksi_20140875_en.pdf

**Cysylltiadau Llywodraeth Cymru:**

Ebost: safeguardingandadvocacy@wales.gsi.gov.uk

Phil Mulraney: Ffôn: 029 2082 1556
David Clayton: Ffôn: 029 2082 5593

# Adran 4: Ar ôl gwneud y gorchymyn

### Monitro a chofnodi

4.1 Dylai awdurdodau lleol gytuno ar weithdrefnau cyffredin ar gyfer cofnodi a monitro eu ceisiadau llwyddiannus ac aflwyddiannus ac ar gyfer rhannu manylion gyda'u Byrddau Diogelu Oedolion, gan gynnwys nifer y ceisiadau sy'n cael eu gwneud a'u cymeradwyo.

### Atodi Amod Hysbysu i Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

4.2 Mae adran 127(6)(c) y Ddeddf yn nodi y gall Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion gynnwys amod y dylid hysbysu meddiannydd y fangre a'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg. Mae'n rhaid nodi'r amod hwn yn y gorchymyn pan fo'n berthnasol, ynghyd â'r ffordd y mae'n rhaid cyflwyno'r hysbysiad.

4.3 Mae'n rhaid i'r ynad heddwch benderfynu, ar sail tystiolaeth a ddarperir yn y cais, pa un a allai atodi gofyniad i roi hysbysiad beryglu diogelwch yr oedolyn yr ystyrir ei fod yn wynebu risg. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddo neu iddi gydbwyso hawliau holl feddianwyr y fangre, gan gynnwys hawliau unigolion eraill yr effeithir arnynt gan y gorchymyn – er enghraifft, pan fo llety'n cael ei rannu mewn lleoliad domestig fel llety â chymorth.

### Amseru defnydd y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

4.4 O dan adran 127(6)(a) y Ddeddf, gellir atodi amod o ran yr amser y ceir arfer y gorchymyn. Ac eithrio mewn achosion brys, dylid rhoi ystyriaeth gref i'r amser mynediad, yn enwedig pan allai fod materion yn ymwneud â galluedd. Yn absenoldeb amod yn y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn ymwneud ag amseru, dylid dal i roi ystyriaeth ofalus i'r amser mynediad mwyaf priodol, gan gadw mewn cof hawliau a buddiannau'r rhai a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol.

### Mynd i mewn i'r fangre

4.5 Mae'n bwysig cofio bob amser, oherwydd eu natur ymwthiol cynhenid, bod yn rhaid cymryd gofal i sicrhau bod defnydd o'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn cyd-fynd â Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'n rhaid cymryd yr holl fesurau posibl i sicrhau bod y perygl o fynediad trwy rym neu hynod wrthdrawiadol i'r fangre cyn lleied â phosibl.

4.6 Sylwer o dan adran 127(5)(b) bod yn **rhaid** i Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion gynnwys darpariaeth y **caiff** cwnstabl fod gyda'r swyddog awdurdodedig. Ceir disgresiwn o ran pa un a ddylai cwnstabl fod gyda'r swyddog awdurdodedig. Mae'n rhaid ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu a oes angen cwnstabl. Mae'r canlynol yn eu plith:

- y tebygolrwydd o wrthwynebiad i fynd i mewn i'r fangre;
- unrhyw hanes hysbys o drais;
- difrifoldeb y cam-drin tybiedig; a
- dyfarniad o ran a allai hyn waethygu'r sefyllfa.

4.7 Bydd union swyddogaeth yr heddlu'n dibynnu ar amgylchiadau unigol. Bydd eu presenoldeb yn y cefndir mewn rhai sefyllfaoedd, tra byddant yn ganolog i gael mynediad at y person mewn eraill. Un egwyddor allweddol yw y bydd yr heddlu yn defnyddio cyn lleied o rym â phosibl ac y dylai effaith eu presenoldeb gyfrannu at gyflawni dibenion y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn hytrach na'i beryglu.

4.8 O dan adran 127(7) y Ddeddf, mae pwerau cwnstabl o dan Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn ymestyn y tu hwnt i sicrhau mynediad ac yn cynnwys sicrhau bod dibenion Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn cael eu cyflawni. Caiff y cwnstabl ddefnyddio ei bwerau/ei phwerau i arestio os yw'n amau bod troseddau penodol wedi eu cyflawni.

4.9 Mae adran 127(8) y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog awdurdodedig nodi pwrpas yr ymweliad, cyflwyno tystiolaeth o awdurdod i fynd i mewn i'r fangre, a rhoi esboniad i feddiannydd y fangre o sut i wneud cwyn am sut y mae'r pŵer mynediad wedi ei arfer.

4.10 O ystyried natur sensitif y pŵer hwn, mae'n hanfodol bod y swyddog awdurdodedig yn esbonio'n eglur i'r oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg, ac unrhyw feddiannydd eraill y fangre, yr hyn sy'n digwydd, a'r hyn a fydd yn digwydd ar ôl i'r ymweliad ddod i ben.

4.11 Dylid rhoi copi o'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i feddiannydd y fangre a dylai'r swyddog awdurdodedig ddefnyddio geiriad safonol i sicrhau cydymffurfiad ag adran 127(8):

> *Rwy'n meddu ar Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion a gyflwynwyd yn briodol o dan adran 127 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Diben y gorchymyn yw fy ngalluogi i gael sgwrs breifat gyda pherson yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso er mwyn darganfod a yw'r person hwnnw'n gwneud penderfyniadau o'i wirfodd ac i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.*
>
> *Os ydych chi'n anfodlon â fy ngweithredoedd, gallwch gofnodi cwyn yn ffurfiol gyda'r adran gwasanaethau cymdeithasol.*
>
> *Os ydych chi'n anfodlon â chanlyniad cwyn y byddwch yn ei wneud i'r awdurdod, cewch gysylltu wedyn ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae gan yr Ombwdsmon bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus ac mae'n annibynnol ar holl gyrff y llywodraeth.*

**Yr asesiad**

4.12 O ystyried natur y camau hyn, bydd swyddogion awdurdodedig o'r farn ei bod o fudd darparu manylion y weithdrefn gwynion, yr ombwdsmon ac unrhyw asiantaethau lleol sy'n addas ar gyfer cynnig cyngor a chymorth i'r aelwyd.

4.13 Mae adran 127(2)(c) y Ddeddf yn nodi mai un o ddibenion y Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yw "galluogi'r swyddog awdurdodedig i asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad fel sy'n ofynnol gan adran 126(2) ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd."

4.14 Dylai'r asesiad gynnwys ystyriaeth o risg, statws iechyd, galluedd a gallu'r person i amddiffyn ei hun. Bydd angen hefyd iddo gynnwys asesiad o ddealltwriaeth y person o'r hyn sy'n digwydd a beth yw ei ddymuniadau. Mae'n rhaid rhoi pwys priodol i'w ddymuniadau gan gofio ystyried y posibilrwydd o ddylanwad amhriodol.

**Strategaeth ymadael**

4.15 Bydd yn bwysig bod strategaeth ymadael wedi ei datblygu fel y gall y swyddog awdurdodedig esbonio'n eglur, i'r person agored i niwed ac i'r meddianwyr eraill, yr hyn fydd yn digwydd ar ôl yr ymweliad, unrhyw gamau dilynol a gynigir, ac unrhyw ffynonellau o gymorth sydd ar gael iddynt.

4.16 Os bu angen mynediad grymus, yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y fangre'n cael ei diogelu.

**Rhannu gwybodaeth**

4.17 Mae adran 137 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn eu gwneud yn ofynnol i berson neu gorff gydymffurfio â chais am wybodaeth gan Fwrdd Diogelu oni bai y byddai gwneud hynny'n achosi diffyg cydymffurfiad â dyletswyddau'r person neu'r corff, neu'n cael effaith andwyol ar arfer swyddogaethau'r person neu'r corff mewn ffordd arall.

4.18 Mae adran 164 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar y partneriaid perthnasol i gydweithredu â'r awdurdodau lleol a rhoi gwybodaeth iddynt at ddiben eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

4.19 Mae adran 184 y Ddeddf yn rhoi grym i Weinidogion Cymru ofyn am wybodaeth ynghylch materion sy'n gysylltiedig â swyddogaethau o dan y Ddeddf a materion perthnasol eraill.

**Goblygiadau Rhyddid Gwybodaeth**

4.20 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflawni ei chyfrifoldebau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gallai gwybodaeth a gyflwynir i awdurdod cyhoeddus fod yn destun datgeliad i drydydd parti mewn ymateb i gais am wybodaeth o dan y Ddeddf. Gallai Llywodraeth Cymru hefyd benderfynu cynnwys gwybodaeth benodol yn y cynllun cyhoeddi y mae'n ei gynnal o dan y Ddeddf.

# Atodiad A: Dull cam wrth gam ar gyfer cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

## 1. Casglu tystiolaeth

Mae awdurdodau perthnasol yn canolbwyntio ar yr hyn sydd fwyaf perthnasol ac angenrheidiol i ddarparu tystiolaeth i'r llys gael dealltwriaeth eglur o'r mater.

## 2. Ystyried y bobl i fod gyda'r swyddog awdurdodedig

Mae'n rhaid i'r swyddog awdurdodedig ystyried pwy y gallai fod ei angen i fod gydag ef ar yr ymweliad, a pha wybodaeth y gallai'r llys fod ei hangen er mwyn cytuno i unrhyw gais o'r fath.

## 3. Gwneud cais i'r llys ynadon

Gwneir cais am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion trwy gŵyn i'r llys ynadon gan ddefnyddio'r ffurflen briodol yn Atodiad B. Fel mater o arfer da, dylai'r cais gael ei wneud yn bennaf i'r llys ynadon ar gyfer yr ardal lle mae'r fangre wedi ei lleoli.

## 4. Y gwrandawiad

Dylai'r swyddog awdurdodedig, gyda chymorth cyfreithiol priodol, sicrhau bod yr holl dystiolaeth a thystion ar gael yn y gwrandawiad, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth i gefnogi penderfyniad gan y llys i wneud gorchymyn ar unwaith. Bydd angen i'r swyddog awdurdodedig drafod rhestru gyda'r llys cyn dod â thystion ac ati i'r llys.

## 5. Gweithdrefn yn syth ar ôl Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Pan gaiff Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion ei ganiatáu, pan fo'n darparu i hysbysiad gael ei gyflwyno, dylid trefnu gwasanaeth personol cyn gynted â phosibl. Dylid cofnodi'r gwasanaeth ym mhob achos. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau yr anfonir copi o'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i'r heddlu ar unwaith. Dylid rhoi copïau o'r Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i unrhyw asiantaeth berthnasol arall hefyd.

## Atodiad B: Ffurflen gais ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion

Cais trwy gŵyn am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a.127

Llys Ynadon (Cod): ..............................................................................................

Dyddiad:
..........................................................................................................................

Testun y Gorchymyn:

..........................................................................................................................

Cyfeiriad:

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

Awdurdod Ymgeisio:

..........................................................................................................................

A honnir:

(a) bod...................................................................................yn dioddef neu'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, bod ganddo anghenion gofal neu gymorth ac o ganlyniad i'r anghenion hynny nad yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y perygl o hynny; a

(b) bod Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn angenrheidiol i'r swyddog awdurdodedig gael mynediad at y person a enwir uchod, er mwyn asesu'n briodol a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd; a

(c) mae gwneud gorchymyn yn angenrheidiol i gyflawni'r dibenion a nodir yn adran 127(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; ac

(ch) na fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri i'r oedolyn fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Disgrifiad cryno o’r sail ar gyfer y cais:

(a)........................................................................................................................

(b)........................................................................................................................

(c)........................................................................................................................

(ch)......................................................................................................................

Credaf ei bod yn briodol i’r person(au) canlynol fod gyda mi wrth arfer y gorchymyn (yn unol ag a.127(6)(b) y Ddeddf):

(a)........................................................................................................................

(b)........................................................................................................................

(c)........................................................................................................................

(ch)......................................................................................................................

A ydych chi'n dymuno i’r cais hwn gael ei glywed:

i) heb hysbysu’r diffynnydd; neu
II) ar ôl hysbysu’r diffynnydd;

Os ydych yn dymuno i’r cais gael ei glywed heb roi hysbysiad, nodwch eich rhesymau:

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

A ydych chi'n dymuno i orchymyn gael ei ganiatáu gyda neu heb ofyniad i hysbysu meddiannydd y fangre ac i’r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy’n wynebu risg? Nodwch eich rhesymau:

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

Mae’n rhaid i’r gorchymyn nodi’r cyfnod y bydd mewn grym. A oes unrhyw faterion yr ydych yn dymuno eu codi sy’n berthnasol i’r cwestiwn hwn?

………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………

Enw'r Awdurdod Ymgeisio:

..............................................................................................................................

Cyfeiriad yr Awdurdod Ymgeisio:

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

Sy'n datgan bod y manylion uchod yn ddisgrifiad gwir a chywir o'r sail y gwneir y gŵyn hon arni:

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

Cymerwyd ger fy mron i
Yr Ynad Heddwch
[Trwy orchymyn clerc y llys]

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol yr ydych o'r farn sy'n berthnasol i'r cais hwn:
…………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………
Enghreifftiau o'r math o berson a allai fod gyda swyddog awdurdodedig:

- y gweithiwr allweddol (gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal iechyd);
- gweithiwr gofal cartref;
- eiriolwr (statudol neu anstatudol);
- aelod o'r teulu neu ffrind agos;
- asesydd budd pennaf;
- ymarferydd cyffredinol; neu
- gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

**Offerynnau Stadudol Cymru**
**2015 Rhif 1465 (Cy. 159)**

**GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU**

**Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog wdurdodedig) (Cymru) 2015**

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Goffennaf 2015* |
| *Yn dod I rym* | *6 Ebrilll 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 127(9) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014([1]), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Cafodd drafft o'r Rheoliadau hyn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf honno a'i gymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**— (1) Enw r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion(Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016.

(3) Mae r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod awdurdodi" ("*authorising authority*") yw'r awdurdod lleol sy'n awdurdodi'rswyddog awdurdodedig;

ystyr "hyfforddiant priodol" ("*appropriate training*") yw hyfforddiant a ddarperir neu a drefnir gan Weinidogion Cymru neu awdurdod awdurdodi a fydd yn galluogi person i ymgymryd â swyddogaethau swyddog awdurdodedig o dan adran 127 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr "profiad perthnasol" ("*relevant experience*") yw bod yr awdurdod penodi wedi ei fodloni bodgan y person y profiad sy'n ofynnol o weithio o fewn maes gofal cymdeithasol gydag oedolionsy'n wynebu risg, neu y gallent fod yn wynebu risg;

ystyr swyddog ("*officer*") yw swyddog a benodiro dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**1** 2014 Annaw 4

**Cyfyngiadau ar bwy a gaiff fod yn swyddog awdurdodedig**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), ni chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sy'n swyddog i'r awdurdod awdurdodi i wneud cais am orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mewn achos penodol pan na fo'n ymarferol i swyddog sy'n bodloni paragraff (1) weithredu, ni chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person a chanddo brofiad perthnasol, sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sydd—

(a) yn swyddog i awdurdod lleol o fewn yr un ardal Bwrdd Diogelu([2]) â'r awdurdod awdurdodi, neu

(b) pan na fo'n ymarferol i swyddog a ddisgrifiwyd yn is-baragraff (a) weithredu, yn swyddog i unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.

(3) Mewn achos penodol pan na fo'n ymarferol I swyddog sy'n bodloni paragraff (1) neu (2) weithredu, ni chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person sy'n swyddog i'r awdurdod awdurdodi.

Mark Drakeford
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru

1 Gorffennaf 2015

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw r nodyn hwn yn rhan o r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac maent yn ymwneud â pherson a awdurdodir gan awdurdod lleol i wneud cais am orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn o dan adran 127 o'r Ddeddf honno.

Mae rheoliad 3(1) yn darparu, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraffau (2) a (3), na chaiff awdurdod lleol awdurdodi neb ond person a chanddo brofiad perthnasol, sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sy'n swyddog i'r awdurdod lleol hwnnw.

Pan na fo hynny'n ymarferol, mae rheoliad 3(2) yn darparu ar gyfer awdurdodi person a chanddo brofiad perthnasol, sydd wedi cwblhau hyfforddiant priodol ac sy'n swyddog i awdurdod lleol o fewn ardal bwrdd diogelu benodol, neu yn niffyg hynny, i awdurdod lleol yng Nghymru.

O dan amgylchiadau pan na fo'n ymarferol I swyddog a ddisgrifir ym mharagraffau (1) neu (2) weithredu, mae rheoliad 3(3) yn caniatáu i awdurdod lleol awdurdodi swyddog i'r awdurdod lleol hwnnw a chanddo brofiad perthnasol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi drwy gysylltu â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

**2** Mae adran 142 o'r Ddeddf yn diffinio "ardal Bwrdd Diogelu" fel ardal a nodir mewn rheoliadau o dan adran 134(1) o'r Ddeddf (gweler y Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 S.I. 2015/1357 (W.131)).

# Atodiad D: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Adran 127 Gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion

**Adran 127 Gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion**

(1) Caiff swyddog awdurdodedig wneud cais i ynad heddwch am orchymyn ("gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn") mewn perthynas â pherson sy'n byw mewn unrhyw fangre o fewn ardal awdurdod lleol.

(2) Dibenion gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn yw—

(a) galluogi'r swyddog awdurdodedig ac unrhyw berson arall sydd gyda'r swyddog i gael sgwrs breifat gyda'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg;

(b) galluogi'r swyddog awdurdodedig i ganfod a yw'r person hwnnw'n gwneud penderfyniadau o'i wirfodd; ac

(c) galluogi'r swyddog awdurdodedig i asesu'n iawn a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ac i wneud penderfyniad fel sy'n ofynnol gan adran 126(2) ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd.

(3) Pan fo gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn mewn grym, caiff y swyddog awdurdodedig, cwnstabl ac unrhyw berson penodedig arall sydd gyda'r swyddog hwnnw yn unol â'r gorchymyn, fynd i mewn i'r fangre a bennir yn y gorchymyn at y dibenion a nodir yn is-adran (2).

(4) Caiff yr ynad heddwch wneud gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn os yw wedi ei fodloni—

(a) bod gan y swyddog awdurdodedig sail resymol dros amau bod y person yn oedolyn sy'n wynebu risg;

(b) ei bod yn angenrheidiol i'r swyddog awdurdodedig gael gweld y person er mwyn asesu'n iawn a yw'r person hwnnw'n oedolyn sy'n wynebu risg a gwneud penderfyniad fel sy'n ofynnol gan adran 126(2) ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd;

(c) bod gwneud gorchymyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r dibenion a nodir yn is-adran (2); a

(ch) na fydd arfer y pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn yn peri i'r oedolyn fod mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

(5) Rhaid i orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn—

(a) pennu'r fangre y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hi;

(b) darparu y caiff cwnstabl fod gyda'r swyddog awdurdodedig;

(c) pennu'r cyfnod pryd y bydd y gorchymyn mewn grym.

(6) Caniateir i amodau eraill gael eu gosod ar orchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn, er enghraifft—

(a) pennu cyfyngiadau ar yr amser pan ganiateir i'r pŵer mynediad a roddir gan y gorchymyn gael ei arfer;

(b) darparu i berson penodedig arall fod gyda'r swyddog awdurdodedig;

(c) ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad am y gorchymyn gael ei roi i feddiannydd y fangre a'r person yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg.

(7) Caiff cwnstabl sydd gyda'r swyddog awdurdodedig ddefnyddio grym rhesymol os yw'n angenrheidiol er mwyn cyflawni dibenion gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn fel a nodir yn is-adran (2).

(8) Wrth fynd i mewn i'r fangre yn unol â gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn rhaid i'r swyddog awdurdodedig—

(a) datgan diben yr ymweliad;

(b) dangos tystiolaeth o'r awdurdodiad i fynd i mewn i'r fangre; ac

(c) rhoi esboniad i feddiannydd y fangre am sut i gwyno ynghylch sut y mae'r pŵer mynediad wedi cael ei arfer.

(9) Yn yr adran hon ystyr swyddog awdurdodedig yw person sydd wedi ei awdurdodi gan awdurdod lleol at ddibenion yr adran hon, ond caiff rheoliadau osod cyfyngiadau ar y personau neu'r categorïau o bersonau y caniateir eu hawdurdodi.